\

COFNODION CYFARFOD
O BWYLLGOR RHEOLI CAE MAESYDERI
24 TACHWEDD 2009 AM 7.00PM
SWYDDFA MENTER LLAMBED, LLANBEDR PS

YN BRESENNOL
CYNGOR TREF LLANBEDR PS
Cyng. Maer Selwyn Walters (Cadeirydd)
Cyng. Cecilia Barton.
CYNGOR SIR CEREDIGION
Cyng Robert (Hag) Harris
Cyng Ivor Williams
CLWB RYGBI A PHÊL DROED LLANBEDR PS
Cyng. Greg Evans
MUDIAD MYDTARA
Lizzie James - Gwêl-y-Creuddyn
YN GWEINYDDU
Eleri Thomas – Clerc Cyngor Tref Llambed

1. CROESO'R CADEIRYDD
Croesawodd y Maer Selwyn Walters bawb i'r Cyfarfod.

2. YMDDIHEURIADAU
Cyng Robert Phillips; Cyng Chris Thomas a'r Cyng. Derek Wilson.
MUDIAD MYDTARA
Carol Davies & Sue Davies – Maesyderi, Llambed.

3. DATGELU BUDDIANNAU PESONOL: Dim.

4. COFNODION CYFARFOD 27/10/2009
Cytunwyd i gofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor a gynhaliwyd yn Swyddfa Menter Llambed ar ddydd Mawrth 27ain o Hydref 2009 fel cofnod cywir. Arwyddwyd y cofnodion gan y Cadeirydd.

5. MATERION YN CODI

5.1 TORRI GWAIR
Adroddwyd bod Mr Mike Brown, Caerfoel, Cribyn wedi torri'r gwair ar 4 achlysur (y 4ydd toriad ar yr 27ain Hydref) ers canol Medi. Roedd y cytundeb wedi cynnwys 6 toriad. Bydd y 2 doriad olaf yn cael eu cario allan yn y gwanwyn y flwyddyn nesaf. Y mae Mr Brown wedi derbyn tâl am 6 toriad.

5.2 MYNYDDOEDD GWADDOD
Y mae oddeutu 80 o fynyddoedd gwaddod ar y cae: nodwyd er gwybodaeth.

5.3 GWAIR SY'N TYFU YR OCHR ALLANOL I'R FFENS AC YN AGOS i GWRBYN YR HEOL SY'N ARWAIN I STÂD MAESYDERI
Cytunwyd i ofyn i Mr Mike Brown i dorri'r gwair yn y rhan yma, pan yn torri'r gwair yn ystod y gwanwyn, os na dderbynnir ymateb gan y cyngor sir cyn hynny. Cynigodd y Cyng. Ivor Williams ei wasanaeth i dorri'r ran yma o wair.

5.4 TOCIO'R PERTHI
Cytunodd y Cyng. Chris Thomas i docio ac i osod y berth mewn cyfarfod cynt. Y Maer i gysylltu â'r Cyng. Thomas i weld tybed a fyddai'n barod i gadw at y trefniant hwn – os na fydd yn gytûn, i geisio amcanbrisiau..

5.5 TRWSIO'R FFENS
Bydd y ffens yn cael ei drwsio'n ystod y dyfodol agos gan y Cyng. Ivor Williams a'r Cyng. Greg Evans.

5.6 GATIAU
Cytunwyd i folltio'r gatiau mawrion. Y Cyng. Derek Wilson i brynu ac i osod y gadwyn a'r bollt mewn lle.

5.7 ARWYDDION

Y Cyng Wilson a Thomas i ail-osod yr arwydd. Hefyd yn dal i ddisgwyl yr arwyddion gwahardd cŵn dan law'r heddlu.

5.8 Y MEINCIAU

Bu i'r Cyng Thomas adleoli 2 fainc nad oedd eu hangen bellach o Barc Parc-yr-Orsedd i Gae Maesyderi. Y mae yn y broses o drwsio mainc arall a oedd yn ychwanegol o Barc-yr-orsedd cyn ei throsglwyddo i'r cae.

5.9 MYNYDD O BRIDD AR Y CAE

Cytunodd Sue Davies i ofyn i un o drigolion Maesyderi tybed a fyddai'n bosibl iddo adleoli'r mynydd o bridd o'r safle pesennol gan ddefnyddio JCB. Gellir defnyddio'r pridd yn ystod y dyfodol ee ar gyfer creu trac-baw. (HEB EI GARIO ALLAN)

5.10 DEFNYDD POSIBL AR GYFER Y CAE YN YSTOD Y DYFODOL

Adroddwyd bod y cae wedi ei gynnwys o fewn y Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Ceredigion a Safloedd Posib. Gall hyn olygu y bydd y cae yn cael ei ddefnyddio at ddibenion adeiladu yn ystod y dyfodol. Derbyniodd y Cyngor Tref les 3 blynedd ar y cae oddi wrth y cyngor sir gan ddechrau ar y 13eg o Ebrill 2009. Ar ôl y cyfnod hwn ni fydd gan y cyngor tref unrhyw hawliau i barhau â'r les. Yng ngoleuni'r ffeithiau hyn, teimlwyd na fyddai'n ddoeth i wario'n hael ar brosiectau, os golyga hyn y gellir eu colli i ddatblygwyr ar ôl y cyfnod hwn.

PYG: Y Maer i gysylltu â'r Clwbiau PÊL DROED/Rygbi gyda'r bwriad o farcio'r pyg ar gyfer y cae.

Bydd Lizzie James yn ymchwilio i bosibiliadau ar gyfer beicio ar y cae ac i gyflwyno'r cynlluniau'n ystod y cyfarfod nesaf..

5.11 ADRODDIAD CYNNYDD AR GYFER Y WASG

Cyflwynodd Eleri Thomas adroddiad cynnydd i'r Cambrian News o dan newyddion yn ymwneud â'r pentref a hefyd gofynnwyd i Dr Dai Thorne i ysgrifennu erthygl yn y papur bro'r *Clonc.* Cysylltwyd hefyd â Mr Carl Stringer gohebydd y wasg ar gyfer y Carmarthen Journal.

6. CYLLID

GWARIANT:

EITEM	**PRIS HEB TAW**	**TAW £**	**CYFANSWM £**
GÂT	365.00	54.75	419.75
ARWYDD NEWYDD	109.00	16.35	125.35
6 TORIAD GWAIR			800.00
Argraffu 400 o daflenni			36.00
CYFANSWM Y GWARIANT CYN BELLED			**£1,381.10**

Bydd yn ofynnol i'r Cyngor Tref i benderfynu ar gyllid ar gyfer y cae yn ystod ei gyfarfod Cyllid flynyddol ym mis Ionawr.

7. UFA

7.1 Derbyniwyd llythyr gan Mr Damien Conti yn gofyn tybed a fyddai'n bosibl i godi parc sglefrio ar y cae. Cytunwyd i hysbysu Mr Conti nad oedd yn realistig i wario arian ar barc sglefrio ar hyn o bryd.

7.2 Adroddwyd mewn cyfarfod cynt na fu'r cais am gymhorthdal gan yr heddlu dan law Swyddog Cynorthwyol Cymunedol yr Heddlu Ryan Jones wedi bod yn llwyddiannus. Hysbyswyd y Maer bod y cais yn cael ei drafod unwaith yn rhagor.

Gan nad oedd unrhyw fater arall daeth y Cyfarfod i ben am 8.20pm.

8. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

I'w benderfynu. ----------

(Cadeirydd & Dyddiad)